PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 19 HYDREF 2021

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lent, Naughton a/ac Parkhill |

176 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Hinchey, Rose Whittle a Deborah Driffield.

177 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

178 : COFNODION

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 20 Gorffennaf 2021 fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Lent ac eiliwyd gan y Cynghorydd Naughton.

179 : ADRODDIAD AR GYNNYDD Y STRATEGAETH RHIANTA CORFFORAETHOL

Croesawodd y Cadeirydd Leigh Vella, Swyddog Rhianta Corfforaethol, a Jade Harrison, Rheolwr Gweithredol, Gwella Gwasanaeth a Strategaeth, i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd Leigh Vella a Jade Harrison i gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y Strategaeth Rhianta Corfforaethol.

Gofynnwyd i’r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi’u crynhoi isod:

- Croesawodd yr Aelodau ddatblygiad Tŷ Falconwood a mynegi eu diolch am waith Swyddogion ac aelodau staff dan sylw. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y gwaith dros y misoedd diwethaf.

PENDERFYNWYD:

Nodi’r adroddiad.

180 : GWASANAETH CYFRANOGIAD PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHOBL SY'N GADAEL GOFAL

Croesawodd y Cadeirydd Samantha Anderson, Gweithiwr Cyfranogiad, NYAS i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd Samantha Anderson i gyflwyno'r adroddiad a baratowyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y Clwb Bright Sparks a'r gweithgareddau y mae wedi'u cynnal mewn perthynas â'r drydedd o'r 5 Blaenoriaeth a amlinellir yn y

Strategaeth Rhianta Corfforaethol – Cartref cyfforddus, diogel a sefydlog tra mewn gofal ac ar ôl.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd.  Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Holodd yr Aelodau a oedd plant a phobl ifanc yn derbyn gwybodaeth mewn perthynas â'r etholiadau lleol sydd ar ddod.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod sesiynau wedi bod ar y Senedd yn gynharach yn y flwyddyn a chafodd pobl ifanc eu cefnogi i gofrestru i bleidleisio a phleidleisio.  Mae gwybodaeth hefyd wedi'i rhannu am y Senedd Ieuenctid.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar adeiladu cysylltiadau â'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am sgwrs i ddod â phobl ifanc i'w chyflwyno gan siaradwr o Brifysgol Caerdydd.  Roedd trafodaethau wedi'u cynllunio am gyfleoedd i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal fynd i'r brifysgol.  Mae cysylltiadau'n cael eu gwneud gyda First Campus, cydweithrediad rhwng Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru. Mae rheolwr allgymorth First Campus wedi'i benodi'n ddiweddar ac mae'n edrych ar ddatblygu llwybrau i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal fynd i mewn i'r brifysgol.

- Rhoddwyd gwybod pellach i'r aelodau fod cynnig am arian y Loteri wedi'i gyflwyno ar gyfer hyfforddi cymheiriaid agos.  Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda Phrifysgol Caerdydd i hyfforddi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i hyfforddi pobl ifanc a datblygu dyheadau i fynd i'r brifysgol.  Mae trafodaethau pellach am y ffrwd ariannu briodol ar y gweill.  Mae ymchwiliadau hefyd ar y gweill i sut y gall pobl ifanc sydd wedi gwneud yn dda yn eu TGAU gael mynediad at raglen Seren.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar gyfweliadau dychwelyd adref. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod cyfweliadau yn digwydd naill ai rhwng y gweithiwr cymdeithasol a'r person ifanc neu'r Heddlu, Barnardo's ac Ymddiriedolaeth San Silyn.  Os oes pryderon am ecsbloetio naill ai'n rhywiol neu'n droseddol, bydd Barnardo's neu San Silyn hefyd yn cwblhau'r cyfweliadau dychwelyd adref, sy'n cael eu dyrannu gan yr Heddlu.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

181  :   LANSIAD MAETHU CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Amy McArdle, Swyddog Marchnata Rhanbarthol (Allanol), i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd Amy McArdle i gyflwyno'r adroddiad ar lansio Maethu Cymru, partneriaeth genedlaethol gwasanaethau maethu awdurdodau lleol.

Gofynnwyd i'r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd.  Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad a fu unrhyw dargedu penodol yn yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod yr ymgyrch wedi bod yn generig ar lefel genedlaethol. Nod y marchnata oedd codi ymwybyddiaeth ar lefel eang. Wrth i'r ymgyrch fynd yn ei blaen mae mwy o waith yn cael ei wneud ar nodi cyfleoedd penodol ar gyfer targedu.

- Holodd yr aelodau a oedd cynlluniau i gynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd mewn ieithoedd cymunedol eraill ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai deunydd mewn ieithoedd priodol yn cael eu cynhyrchu lle y byddai cyfleoedd penodol ar gyfer targedu yn cael eu cynhyrchu.

- Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth am ganran y gofalwyr maeth o gefndiroedd PDdALIE. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad oedd yr union ffigurau ar gael ond deallwyd bod y ganran yn isel.

PENDERFYNWYD:

Nodi’r adroddiad.

182 : PORTH POBL IFANC

Croesawodd y Cadeirydd Stephanie Rogers Lewis, Rheolwr Llety, i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd Stephanie Rogers Lewis i gyflwyno'r adroddiad, a oedd yn cynnwys data ar ganlyniadau a gwybodaeth ynghylch cynlluniau ehangu ar gyfer y Porth.

PENDERFYNWYD:

Nodi’r adroddiad.

183 : CYNLLUN TROSGLWYDDO CENEDLAETHOL

Croesawodd y Cadeirydd Jade Harrison, Rheolwr Gweithredol, Gwella Gwasanaeth a Strategaeth, a Rebecca Brockway, Rheolwr Prosiect, i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd Rebecca Brockway i gyflwyno adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ynghyd â diweddariad ar y datblygiadau hyd yma wrth ei weithredu.

Gofynnwyd i’r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi’u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar amlder a hyd y cyfnodau ar y rota. Cafodd yr aelodau wybod ei fod wedi'i gynllunio i fod ar rota unwaith y chwarter, ond bod y pwysau ar y gwasanaeth yn golygu bod y cylch rota wedi mynd rownd yn gyflymach. Dywedwyd y byddai saib i fyfyrio pan gyrhaeddid ymrwymiad rhanbarthol 20 o bobl ifanc yng Nghaerdydd a 30 ar draws y rhanbarth.

- Trafododd yr aelodau sut y gallai eiriolaeth gefnogi a chysylltu â'r cynllun fel bod llais pobl ifanc wedi'i gofnodi. Dywedodd swyddogion fod cysylltiad wedi bod gyda NYAS. Gall eiriolaeth fod yn rhan o ddwy ffordd: cefnogi'r person ifanc wrth gyrraedd; ac yn ychwanegol lle mae angen asesiad oedran ar blant sy'n cyrraedd, gan ddefnyddio Gwasanaeth Eiriolaeth NYAS a'r gwasanaeth ieuenctid i gynnig y gefnogaeth eiriolaeth a'r cymorth priodol i oedolion yn ôl yr angen. Mae angen datblygu hyn ymhellach ond mae'r bobl allweddol yn eu lle.

- Rhoddwyd gwybod pellach i'r aelodau fod gan y bobl ifanc hawl i'r Cynnig Gweithredol, a byddant yn cael eu hatgyfeirio yn unol â phrosesau. Cafwyd trafodaethau ynghylch sut y mae NYAS yn cefnogi ac a ddylent fod yn y Grŵp Gweithredol.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a oedd y Grŵp Gweithredol yn cynnwys aelodau o'r Bwrdd Iechyd. Dywedodd swyddogion fod cynrychiolwyr o Iechyd o Gaerdydd a Chasnewydd a bod cynrychiolaeth gan Iechyd ar y Grŵp Gweithredol a'r Bwrdd Strategol.

PENDERFYNWYD:

Nodi’r adroddiad.

184 : ADRODDIAD Y SWYDDOG ADOLYGU ANNIBYNNOL

Croesawodd y Cadeirydd Matthew Osbourne i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd Matthew Osbourne i gyflwyno'r adroddiad gan ddarparu diweddariadau a thueddiadau allweddol ar Blant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y cyfnod diwethaf.

Gofynnwyd i’r Aelodau wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a roddwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi’u crynhoi isod:

- Holodd yr aelodau a oedd tystiolaeth bod mwy o blant yn dod i ofal oherwydd y cyfyngiadau symud a'r pwysau dilynol ar deuluoedd. Cafodd aelodau wybod bod cynnydd mawr wedi bod yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y cyfnod clo a bod nifer o resymau dros y cynnydd. Roedd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod plant yn derbyn y gwasanaethau cywir ac roedd y lefel gywir o graffu. Bydd yr adolygiad yn cael ei ymestyn i blant ar y cynllun Gofal a Chymorth.

PENDERFYNWYD:

Nodi’r adroddiad.

185 : DANGOSFWRDD PERFFORMIAD - CHWARTER 1

Croesawodd y Cadeirydd Jade Harrison, Rheolwr Gweithredol, Gwella Gwasanaeth a Strategaeth, i ddarparu crynodeb o'r Monitro Perfformiad i'r Aelodau fel y mae'n ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer Chwarter 1 2021-2022.

186 : BLAENRAGLEN WAITH 2021 - 2022

Gwahoddodd y Cadeirydd Leigh Vella, Swyddog Rhianta Corfforaethol, i adrodd ar y Blaenraglen Waith.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo’r Flaenraglen Waith ar gyfer 2021-2022.

187 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

188 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn cael ei gynnal ar 18 Ionawr 2022 ar MS Teams am 2.00pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm